Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar Weithredu Deddfwriaeth a Pholisïau Llywodraeth Agored yn ystod 2018

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Crynodeb** | **4** |
| **Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth** | **5** |
| **Categori'r Ceisiwr** | **9** |
| **Prydlondeb yr Ymatebion** | **10** |
| **Canlyniadau'r Ceisiadau a Gwblhawyd** | **11** |
| **Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau** | **14** |
| **Adolygiadau Mewnol** | **16** |
| **Prydlondeb Adolygiadau Mewnol** | **18** |
| **Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth** | **18** |
| **Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawl i Wybodaeth)** | **18** |
| **Atodiad A: Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau yn ystod 2018** | **19** |

**Cyflwyniad:**

Dyma'r trydydd adroddiad ar ddeg y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar weithredu deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth agored. Adroddiad ôl-weithredol yw hwn sy'n disgrifio ein profiadau yn ystod 2018.

Mae'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r gwaith o ymdrin â cheisiadau am wybodaeth sydd wedi'i chofnodi o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR). Mae hefyd yn cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a cheisiadau ar ôl 25 Mai a dderbyniwyd o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 / y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Dim ond y ceisiadau a gofnodir gan Uned Hawliau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn yr ystadegau - nid ydynt yn cynnwys ceisiadau "arferol" a gwybodaeth a rennir yn ystod gwaith y Llywodraeth o ddydd i ddydd. O ganlyniad, dim ond cipolwg ar brofiadau a pherfformiad Llywodraeth Cymru yw'r data.

Oni bai y nodir fel arall, casglwyd y data a gyflwynir yn y tablau a'r graffiau drwy'r adroddiad hwn gan ddefnyddio System Olrhain Ceisiadau am Wybodaeth (RFI) Llywodraeth Cymru ar 03 Medi 2019. Nodwch y talgrynnir canrannau i un pwynt degol mewn meysydd, a allai roi'r argraff bod mân anghysondebau rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm.

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd gan awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

**Crynodeb:**

Yn 2018:

- Derbyniodd Llywodraeth Cymru 934 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi.
- Bu cynnydd o 18.7% (o 787 yn 2017) yng nghyfanswm nifer y ceisiadau.
- O'r 934 o geisiadau, roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau[1] 934 (100%) ar adeg llunio'r adroddiad hwn.
- O'r 934 o geisiadau a gwblhawyd, cafodd 807 (86.4%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith a chafodd 838 (89.7%) eu cwblhau o fewn y terfyn amser statudol[2].
- O'r 934 o geisiadau a gwblhawyd, darparwyd rhywfaint o'r wybodaeth neu'r wybodaeth i gyd mewn ymateb i 536 (57.4%).
- Yr esemptiadau mwyaf cyffredin a gymhwyswyd o dan FOIA a'r eithriadau o dan EIR oedd: adran 40 (FOIA)/Rheoliad 13 (EIR): gwybodaeth bersonol (36.3%), adran 21: gwybodaeth sydd ar gael i'r ymgeisydd drwy ddulliau eraill (14.2%), ac adran 43: buddiannau masnachol (7.9%).
- Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 81 o gwynion (8.7% o'r ceisiadau a dderbyniwyd) yn ymwneud â'i gwaith o ymdrin â cheisiadau am wybodaeth.
- O'r 81 o adolygiadau mewnol, cadarnhawyd y gŵyn mewn 13 o achosion, cadarnhawyd y gŵyn yn rhannol mewn 7 o achosion, cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn o 59 achosion, tynnwyd 1 gŵyn yn ôl gan yr achwynydd a gwrthodwyd 1 gwyn am ei bod wedi'i derbyn y tu allan i'r terfyn amser ar gyfer derbyn cwynion.
- Ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i 25 o gwynion[3] (2.7% o geisiadau) a chyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad mewn cysylltiad ag 16 ohonynt.
- Roedd 2 o Hysbysiadau Penderfynu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn destun apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

---

[1]Cais wedi'i gwblhau yw cais am wybodaeth wedi'i chofnodi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ateb.
[2] Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir un ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.
[3] Diffinnir cŵyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ymchwiliad swyddogol sydd wedi arwain at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhoi Hysbysiad o Benderfyniad neu sydd fel arall yn cael ei ddatrys gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth:**

Derbyniodd Llywodraeth Cymru 934 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi yn 2018. Ers cychwyn y FOIA ar 1 Ionawr 2005, mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd bob blwyddyn wedi amrywio. Roedd cynnydd o 18.7% yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn 2018 o'i gymharu â 2017.


Mae Tabl 1 a Ffigur 1 isod yn rhoi manylion am gyfanswm blynyddol nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2005.

Mae Tabl 2 a Ffigur 2 yn cymharu nifer y ceisiadau a dderbyniwyd bob mis yn 2017 ac yn 2018.

Tabl 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd 2005-2018

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y ceisiadau a dderbyniwyd | Gwahaniaeth o'r naill flwyddyn i'r llall (%) |
|---|---|---|
| 2005 | 898 | - |
| 2006 | 677 | -24.6% |
| 2007 | 574 | -15.2% |
| 2008 | 638 | 11.1% |
| 2009 | 860 | 34.8% |
| 2010 | 813 | -5.5% |
| 2011 | 853 | 4.9% |
| 2012 | 992 | 16.3% |
| 2013 | 1,102 | 11.1% |
| 2014 | 914 | -17.1% |
| 2015 | 899 | -1.6% |
| 2016 | 885 | -1.6% |
| 2017 | 787 | -11.1% |
| 2018 | 934 | +18.7% |


Ffigur 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd 2005-2018




Tabl 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd bob mis yn ystod 2017 a 2018

| Mis | 2017 | % o'r Cyfanswm | 2018 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 59 | 7.5% | 128 | 13.7% |
| Chwefror | 57 | 7.2% | 126 | 13.5% |
| Mawrth | 70 | 8.9% | 77 | 8.2% |
| Ebrill | 32 | 4.1% | 75 | 8.0% |
| Mai | 55 | 7.0% | 71 | 7.6% |
| Mehefin | 54 | 6.9% | 65 | 7.0% |
| Gorffennaf | 65 | 8.3% | 73 | 7.8% |
| Awst | 76 | 9.7% | 70 | 7.5% |
| Medi | 73 | 9.3% | 62 | 6.6% |
| Hydref | 68 | 8.6% | 74 | 7.9% |
| Tachwedd | 112 | 14.2% | 61 | 6.5% |
| Rhagfyr | 66 | 8.4% | 52 | 5.6% |
| **Cyfanswm** | **787** | **100%** | **934** | **100%** |

Ffigur 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi bob mis yn ystod 2017 a 2018





Darperir yn Nhabl 3 ddadansoddiad yn ôl portffolio o nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018.

Tabl 3: Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2018

| Maes / Grŵp Cyfarwyddwr Cyffredinol | 2018 Nifer y Ceisiadau | % y Ceisiadau |
|---|---|---|
| Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 157 | 16.8% |
| Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 414 | 44.3% |
| Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 124 | 13.3% |
| Swyddfa'r Prif Weinidog | 125 | 13.4% |
| Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol | 112 | 12.0% |
| **Cyfanswm** | **934** | **100%** |

Ffigur 3: Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2018




**Categori'r Ceisiwr:**

Dros y flwyddyn, roedd ceisiadau gan Aelodau Cynulliad (ACau), y cyfryngau, aelodau staff ac Aelodau Seneddol (ASau) yn cyfrif am 160 (17.1%) o'r 934 o geisiadau a dderbyniwyd. Cofnodwyd y 774 o geisiadau a oedd yn weddill (sef 82.9% o'r holl geisiadau) o dan y categori 'Eraill'.

Tabl 4: Ceisiadau a dderbyniwyd gan bob math o geisiwr yn ystod bob chwarter yn 2018

| | Eraill | AC | Y cyfryngau | Aelodau staff | AS |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwarter 1 | 268 | 43 | 18 | 1 | 1 |
| Chwarter 2 | 172 | 22 | 14 | 2 | 1 |
| Chwarter 3 | 172 | 12 | 19 | 2 | 0 |
| Chwarter 4 | 162 | 6 | 14 | 4 | 1 |
| Cyfanswm 2018 | **774** | **83** | **65** | **9** | **3** |

Ffigur 4: Ceisiadau a dderbyniwyd gan bob math o geisiwr yn ystod bob chwarter yn 2018



**Prydlondeb yr Ymatebion:**

Fel arfer, mae'r FOIA ac EIR yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymateb i geisiadau ysgrifenedig am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn, a cheir eithriadau cyfyngedig. Mae'r FOIA yn caniatáu estyniad rhesymol i'r terfyn amser o 20 diwrnod gwaith wrth ystyried esemptiad wedi'i bwyso a'i fesur yn ôl buddiannau'r cyhoedd ac mae'r EIR yn caniatáu estyniad o uchafswm o 20 diwrnod gwaith ychwanegol os yw'r cais yn gymhleth ac yn swmpus.

O'r 934 o geisiadau, roedd 934 wedi'u cwblhau (100.0%) ar adeg llunio'r adroddiad. O'r 934 o geisiadau a gwblhawyd, cafodd 807 (86.4%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith a chafodd 838 (89.7%) eu cwblhau o fewn y terfyn amser statudol[4].

Mae tabl 5 isod yn manylu ar ganran y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol gan Lywodraeth Cymru ers 2005[5].

Tabl 5: Canran y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol 2005-2018

| Blwyddyn | % a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol |
|---|---|
| 2005 | 63.3% |
| 2006 | 64.2% |
| 2007 | 81.0% |
| 2008 | 86.2% |
| 2009 | 82.1% |
| 2010 | 74.6% |
| 2011 | 83.0% |
| 2012 | 89.0% |
| 2013 | 90.1% |
| 2014 | 91.0% |
| 2015 | 86.6% |
| 2016 | 84.7% |
| 2017 | 83.5% |
| 2018 | 89.7% |

[4] Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir un ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.

[5] Mae'r ffigurau ar gyfer 2005-2008 ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd mewn adroddiadau cynharach oherwydd bod ceisiadau agored yn cael eu cwblhau ar ôl eu cyhoeddi.

**Canlyniadau'r Ceisiadau a Gwblhawyd:**


Yn Nhablau 6a a 6b, ac yn Ffigurau 6a a 6b, dangosir nifer y ceisiadau a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2017 a 2018 yn ôl categori cwblhau.

Tabl 6a: Nifer y ceisiadau wedi'u cwblhau a ddangosir yn ôl categori cwblhau yn ystod 2017 a 2018

| Categori Cwblhau | 2017 | % o'r Cyfanswm | 2018 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Darparu'r holl wybodaeth | 354 | 45.0% | 384 | 41.1% |
| Darparu peth gwybodaeth | 139 | 17.7% | 152 | 16.3% |
| Dim gwybodaeth wedi'i darparu[6] | 113 | 14.4% | 190 | 20.3% |
| Ni chedwir gwybodaeth | 168 | 21.3% | 199 | 21.3% |
| Tynnwyd yn ôl | 13 | 1.7% | 9 | 1.0% |
| **Cyfanswm** | **787** | **100%** | **934** | **100%** |

[6] Mae'r categori 'Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth' yn cynnwys gwybodaeth a ddaliwyd yn ôl yn llawn gan ddefnyddio un eithriad neu fwy, a'r ceisiadau hynny a wrthodwyd am eu bod yn fwy na'r terfyn priodol, ac am eu bod yn geisiadau blinderus neu wedi'u hailadrodd

Ffigur 6a: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd, wedi'u dangos yn ôl categori cwblhau yn 2018





Tabl 6b: Nifer y ceisiadau 'Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth' wedi'u dadansoddi yn ôl categori esemptio yn ystod 2017 a 2018

| Categori Cwblhau 'Ni Ddarparwyd Unrhyw Wybodaeth' | 2017 | % o'r Cyfanswm | 2018 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| S12 Mwy na'r terfyn priodol | 40 | 35.4% | 97 | 51.1% |
| S14 Blinderus | 1 | 0.9% | 13 | 6.8% |
| S14 Wedi'i ailadrodd | 1 | 0.9% | 0 | 0.0% |
| Categori esemptio arall[7] | 71 | 62.8% | 80 | 42.1% |
| **Cyfanswm** | **113** | **100%** | **190** | **100%** |

[7] Mae hyn yn cynnwys ceisiadau lle tynnwyd gwybodaeth yn ôl yn llawn gan ddefnyddio un neu fwy o'r eithriadau/esemptiadau a restrwyd yn yr FOIA, EIR 2004 neu DPA ac eithrio a12 'cost cydymffurfio yn fwy na'r terfyn priodol' ac a14 'blinderus neu wed'i ailadrodd'.

Ffigur 6b: <u>Nifer y ceisiadau ‘Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth’ wedi’u dadansoddi yn ôl categori esemptio yn ystod 2018</u>



**Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau:**

O dan y FOIA, ni all awdurdod cyhoeddus wrthod darparu gwybodaeth sydd ganddo y gofynnir amdani, dim ond os bodlonir y canlynol:

- ystyrir y cais yn flinderus neu'n un sydd wedi'i ailadrodd;
- byddai'r gost o gydymffurfio yn fwy na'r 'terfyn priodol' (£600);
- ni thalwyd y ffi;
- mae'r wybodaeth yn dod o dan un neu fwy o'r categorïau esemptio/eithrio a restrir yn y FOIA, EIR 2004 neu'r DPA.

Mae Tabl 7 a Ffigur 7 yn rhoi manylion am yr esemptiadau a'r eithriadau a gymhwyswyd o leiaf ddeg gwaith gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2018. Gellir gweld rhestr lawn o'r esemptiadau a'r eithriadau yn Atodiad A (nid yw'r ffigurau yn Nhabl 7 yn dangos nifer y ceisiadau y cymhwyswyd esemptiad a/neu eithriad iddynt gan ei fod yn bosibl cymhwyso mwy nag un esemptiad a/neu eithriad mewn cysylltiad â cheisiadau unigol).

Pan fo Llywodraeth Cymru wedi defnyddio esemptiadau a/neu eithriadau sydd ar gael i atal gwybodaeth, mae esboniadau llawn wedi'u darparu a'u cyhoeddi yn y Cofnod Datgeliadau y gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru:
https://llyw.cymru/ymatebion-rhyddid-gwybodaeth


Yr esemptiadau mwyaf cyffredin a gymhwyswyd oedd er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol (adran 40 FOIA; rheoliad 13 EIR), lle'r oedd yr wybodaeth ar gael i'r ymgeisydd drwy ddulliau eraill (adran 21 FOIA) ac i amddiffyn buddiannau masnachol pwysig (adran 43 FOIA).

Tabl 7: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2018

| Deddf-Esemptiad[8] | 2018 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| EIR Rheoliad 12(4)(e) | 14 | 4.4% |
| EIR Rheoliad 13 | 25 | 7.9% |
| FOIA Adran 21 | 45 | 14.2% |
| FOIA Adran 22 | 15 | 4.7% |
| FOIA Adran 36 | 13 | 4.1% |
| FOIA Adran 40 | 90 | 28.4% |
| FOIA Adran 41 | 14 | 4.4% |
| FOIA Adran 43 | 25 | 7.9% |
| Pob esemptiad arall | 76 | 24.0% |
| **Cyfanswm** | **317** | **100%** |

[8] Ceir disgrifiad o'r mater y mae pob esemptiad yn berthnasol iddo ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/for-organisations/guidance-index/freedom-of-information-and-environmental-information-regulations/

Ffigur 7: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2018



**Adolygiadau Mewnol:**

Gall ceiswyr ofyn i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad mewnol os: i) nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniad i atal yr holl wybodaeth y gofynnir amdani neu rywfaint ohoni; ii) os nad ymdriniwyd â'r cais o fewn 20 diwrnod gwaith; neu iii) os ydynt o'r farn y codwyd ffi ar gam.


Derbyniodd Llywodraeth Cymru 81 o gwynion yn 2018 sy'n cyfateb i 8.7% o geisiadau. Roedd hyn yn gynnydd o 44.6% o'i gymharu â 2017. Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau adolygiad mewnol mewn cysylltiad â phob un o'r 81 o gwynion.

Tabl 8: Nifer y Cwynion (2005-2018)

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y cwynion |
|---|---|
| 2005 | 14 |
| 2006 | 27 |
| 2007 | 22 |
| 2008 | 21 |
| 2009 | 16 |
| 2010 | 33 |
| 2011 | 33 |
| 2012 | 45 |
| 2013 | 51 |
| 2014 | 41 |
| 2015 | 40 |
| 2016 | 59 |
| 2017 | 56 |
| 2018 | 81 |

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan Uned Hawliau Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru

Ffigur 8: Nifer y Cwynion (2005-2018)




Tabl 9: Canlyniadau adolygiadau mewnol ar gyfer 2018

| | Nifer | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cadarnhau'r gŵyn | 13 | 16.0% |
| Cadarnhau'r gŵyn yn rhannol | 7 | 8.6% |
| Cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol | 59 | 72.8% |
| Tynnwyd yn ôl | 1 | 1.2% |
| Gwrthodwyd | 1 | 1.2% |
| **Cyfanswm** | **81** | **100%** |

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan Uned Hawliau Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru

O'r 81 o adolygiadau mewnol, cadarnhawyd y gŵyn mewn 13 achos, cadarnhawyd y gŵyn yn rhannol mewn 7 achos a chadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn 59 o achosion. Cafodd 1 gwyn ei thynnu'n ôl gan yr achwynydd a gwrthodwyd un gwyn am ei bod y tu allan i'r terfyn amser.

Ffigur 9: Canlyniadau adolygiadau mewnol ar gyfer 2018



**Prydlondeb Adolygiadau Mewnol:**

Ni cheir unrhyw derfyn amser statudol ar gyfer cwblhau adolygiad mewnol. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau sy'n nodi y dylid cwblhau adolygiad mewnol o fewn 20 diwrnod gwaith ac mewn achosion eithriadol gellir ymestyn y terfyn amser ar gyfer cwblhau i 40 diwrnod gwaith.

O'r 81 adolygiad mewnol, cwblhawyd 59 (72.8%) o fewn 20 diwrnod gwaith, cwblhawyd 18 (22.2%) %) o fewn 21 i 40 diwrnod gwaith a chymerodd 4 (4.9%) fwy na 40 diwrnod gwaith i'w gwblhau.

**Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth:**

Os nad yw ceisiwr yn fodlon ag ymateb Llywodraeth Cymru, gall gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef rheoleiddiwr annibynnol awdurdodau cyhoeddus o ran ymdrin â cheisiadau am wybodaeth. Ar ôl derbyn cwyn, bydd yr ICO yn penderfynu a ddylid ymchwilio a gall yn ddiweddarach gyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad. Hysbysiad o Benderfyniad yw barn derfynol yr ICO ar ba un a yw'r awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio â'r FOIA neu'r EIR, a pha gamau adferol (os oes un) sydd angen eu cymryd. Ni fydd pob ymchwiliad yn arwain at Hysbysiad o Benderfyniad. Datrysir rhai ymchwiliadau yn anffurfiol.

Yn 2018 ymchwiliodd yr ICO i 25 o gwynion[9] (2.7% o geisiadau). O'r 25 ymchwiliad a gwblhawyd, cyhoeddwyd 16 hysbysiad o benderfyniad. Nid oedd unrhyw un o'r hysbysiadau o benderfyniadau yn gofyn am weithredu pellach gan Lywodraeth Cymru.

**Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawl i Wybodaeth):**

Mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth) yn gwrando ar apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Penderfynu a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn 2018, apeliwyd 2 Hysbysiad o Benderfyniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Cadarnhawyd un o'r apeliadau ar y sail bod Llywodraeth Cymru wedi dehogli'r cais mewn modd rhy gyfyng. Gwrthodwyd yr apêl arall.

[9] Diffinnir cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ymchwiliad ffurfiol sydd wedi arwain at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad, neu sy'n cael ei ddatrys gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Atodiad A: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2018**

Fel yr amlinellir yn yr adroddiad, nid yw'r ffigurau isod yn dangos nifer y ceisiadau y cymhwysir esemptiad a/neu eithriad atynt gan ei bod hi'n bosibl cymhwyso mwy nag un esemptiad a/neu eithriad yn ymwneud â cheisiadau unigol.

| **Deddf - Esemptiad** | **2018** | **% o'r Cyfanswm** |
|---|---|---|
| DPA Atodlen 7 Paragraff 10 – braint gyfreithiol broffesiynol | 3 | 0.9% |
| DPA Adran 30 – Iechyd, addysg a gwaith cymdeithasol | 1 | 0.3% |
| EIR Rheoliad 12(4)(b) – Bod y cais yn amlwg yn afresymol | 2 | 0.6% |
| EIR Rheoliad 12(4)(c) – Y cais ar ffurf rhy gyffredinol | 3 | 0.9% |
| EIR Rheoliad 12(4)(d) – Y deunydd yn dal i gael ei gwblhau | 3 | 0.9% |
| EIR Rheoliad 12(4)(e) – Cyfathrebu mewnol | 14 | 4.4% |
| EIR Rheoliad 12(5)(a) – Cysylltiadau rhyngwladol, amddiffyniad, diogelwch gwladol neu ddiogelwch y cyhoedd | 5 | 1.6% |
| EIR Rheoliad 12(5)(b) – Cwrs cyfiawnder, achos teg, ymchwiliad troseddol neu ddisgyblu | 2 | 0.6% |
| EIR Rheoliad 12(5)(e) – Cyfrinachedd o ran gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol pan fo'r gyfraith yn galw am gyfrinachedd er mwyn amddiffyn budd masnachol cyfreithlon | 8 | 2.5% |
| EIR Rheoliad 12(5)(f) – Buddiannau'r person a ddarparodd wybodaeth i'r awdurdod cyhoeddus | 1 | 0.3% |
| EIR Rheoliad 12(5)(g) – Diogelu'r amgylchedd y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef | 3 | 0.9% |
| EIR Rheoliad 13 – Data personol trydydd partïon | 25 | 7.9% |
| FOIA Adran 21 – Gwybodaeth ar gael i'r ymgeisydd drwy ddulliau eraill | 45 | 14.2% |
| FOIA Adran 22 – Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol | 15 | 4.7% |
| FOIA Adran 27 – Cysylltiadau rhyngwladol | 1 | 0.3% |
| FOIA Adran 28 – Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig | 3 | 0.9% |
| FOIA Adran 29 – Yr economi | 6 | 1.9% |
| FOIA Adran 31 – Gorfodi'r gyfraith | 9 | 2.8% |
| FOIA Adran 32 – Cofnodion llys, etc | 6 | 1.9% |
| FOIA Adran 35 – Llunio polisi'r llywodraeth | 7 | 2.2% |
| FOIA Adran 36 – Ymdrin â materion cyhoeddus yn effeithiol | 13 | 4.1% |
| FOIA Adran 37 – Cyfathrebiadau â'i Mawrhydi, etc ac anrhydeddau | 1 | 0.3% |
| FOIA Adran 38 – Iechyd a diogelwch | 4 | 1.3% |
| FOIA Adran 40 – Gwybodaeth bersonol | 90 | 28.4% |
| FOIA Adran 41 – Gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol | 14 | 4.4% |
| FOIA Adran 42 – Braint broffesiynol gyfreithiol | 8 | 2.5% |
| FOIA Adran 43 – Buddiannau Masnachol | 25 | 7.9% |
| **Cyfanswm** | **317** | **100%** |